Methodoleg, canlyniadau a dadansoddiadau'r arolwg o garcharorion

# Carchar Ei Fawrhydi (CEF) Abertawe

Chwefror 2023

# Cynnwys

Methodoleg yr arolwg o garcharorion .................................................................. 3

Ymatebion i'r arolwg ........................................................................................ 4

Canlyniadau a dadansoddiadau'r arolwg o garcharorion ................................... 5

# Methodoleg yr arolwg o garcharorion

Cynhelir arolwg cynrychioliadol o'r carcharorion ar ddechrau pob arolygiad, ac mae'r canlyniadau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad.

Datblygodd ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF holiadur hunan-lenwi ym mis Medi 2017 (a gafodd ei adolygu ym mis Mai 2021) i gefnogi *Disgwyliadau* Arolygiaeth Carchardai EF. Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau wedi'u strwythuro sy'n ymdrin â 'thaith' y carcharor, o dderbyn i ryddhau, ynghyd â chwestiynau demograffig a chefndir sy'n ein galluogi i gymharu ymatebion o wahanol is-grwpiau o boblogaeth y carcharorion. Mae tri chwestiwn agored hefyd ar ddiwedd yr holiadur sy'n caniatáu i garcharorion fynegi yn eu geiriau eu hunain yr hyn sydd fwyaf cadarnhaol a negyddol am y carchar. Gwneir dadansoddiad ansoddol o'r sylwadau ysgrifenedig hyn gan ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF ac fe'i defnyddir gan arolygwyr.

## Samplu

Ar ddiwrnod yr arolwg, mae ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF yn creu sampl ar hap ar sail allbrint o boblogaeth carcharorion P-NOMIS, a drefnir yn ôl lleoliad y celloedd. Gan ddefnyddio cyfrifiad pŵer, mae ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrifo maint y sampl lleiaf sydd ei angen i sicrhau bod canfyddiadau'r arolwg yn gynrychioliadol o holl boblogaeth y sefydliad. Mae'r fformiwla a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad yn cymryd y bydd cyfradd ymateb o 75% (65% mewn sefydliadau agored), a chyfwng hyder o 95% gyda lwfans ansicrwydd o 7%.

## Dosbarthu a chasglu holiaduron

Roedd ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF wedi dosbarthu a chasglu'r holiaduron yn bersonol. Cafodd dalen flaen ei chynnwys gyda'r holiadur, a oedd yn esbonio pwrpas yr arolwg ac nad oedd rhaid i bobl gymryd rhan. Rhoddwyd sicrwydd ynghylch cyfrinachedd, aros yn ddienw a storio a chadw'r data. Cafodd y carcharorion amlen a oedd yn gallu cael ei selio i gadw'r holiadur ar ôl iddyn nhw ei lenwi, a chawsant wybod pryd y byddai'r ymchwilwyr yn dychwelyd i'w gasglu. Oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol, nid oedd modd i'r ymchwilwyr gael cydsyniad ar lafar gan garcharorion, ac felly roedd llenwi a dychwelyd holiaduron yn cael ei ystyried yn gydsyniad. Roedd yr holiadur ar gael mewn 14 iaith.

## Ymatebion i’r arolwg

Adeg yr arolwg ar 21 Chwefror 2023, 435 oedd poblogaeth y carcharorion yng Ngharchar EF Abertawe. Gan ddefnyddio’r dull sampl a ddisgrifiwyd uchod, dosbarthwyd holiaduron i 173 o garcharorion. Cafodd cyfanswm o 126 o holiaduron eu llenwi, sy'n gyfradd ymateb o 73%.

Yn yr arolwg hwn, roedd y gyfradd ymateb yn is na’r gyfradd ymateb dybiedig o 75%. O ganlyniad, efallai na fydd canlyniadau’r arolwg yn cynrychioli barn y boblogaeth a holwyd, a dylid ystyried hyn wrth ddehongli canlyniadau’r arolwg.

Mae adroddiad llawn yr arolygiad ar gael ar ein gwefan yn:
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/

# Canlyniadau a dadansoddiadau’r arolwg o garcharorion

Ar y tudalennau canlynol rydym yn cyflwyno holl ganlyniadau’r arolwg, a ddilynir gan nifer o ddadansoddiadau cymharol ar gyfer Carchar EF Abertawe. Ar gyfer y dadansoddiadau cymharol, lle bo’n berthnasol, ail-luniwyd pob cwestiwn gan ddefnyddio’r prawf Chi-sgwâr (neu brawf union Fisher os oes llai na phum cyfrifiad disgwyliedig mewn cell) i fformat ‘ie/na’ deuaidd a chymharwyd yr ymatebion cadarnhaol. Mae ymatebion coll wedi cael eu heithrio o’r holl ddadansoddiadau, ac mae ymatebion gan is-grŵp o’r sampl wedi cael eu cofnodi ar gyfer rhai cwestiynau (fel mae’r data’n dangos).

## Ymatebion gan Garchar EF Abertawe 2023 o’u cymharu ag ymatebion arolygon eraill Arolygiaeth Carchardai EF

**Gwneir y dadansoddiadau hyn ar ddata crynodol o holl gwestiynau’r arolwg. Gan ein bod wedi bod yn defnyddio fersiwn diwygiedig o’r holiadur ers mis Mai 2021, nid oes gennym ddata cymharol llawn ar gyfer pob cwestiwn eto.**

- Mae ymatebion arolwg gan Garchar EF Abertawe yn 2023 yn cael eu cymharu ag ymatebion arolwg gan garchardai lleol eraill a gafodd eu harolygu ers mis Mai 2021.
- Mae ymatebion arolwg gan Garchar EF Abertawe yn 2023 yn cael eu cymharu ag ymatebion arolwg gan Garchar EF Abertawe yn 2017.
- Mae ymatebion arolwg gan Garchar EF Abertawe yn 2023 yn cael eu cymharu ag ymatebion arolwg ymweliad craffu (YC) gan Garchar EF Abertawe yn 2020.

## Cymharu gwahanol leoliadau preswyl yng Ngharchar EF Abertawe 2023

- Mae ymatebion carcharorion ar yr uned cymhelliant i fyw heb gamddefnyddio sylweddau (adain G) yn cael eu cymharu â’r ymatebion gan weddill y sefydliad.

## Cymharu is-boblogaethau carcharorion a hunan-adroddwyd yng Ngharchar EF Abertawe 2023

**Gwneir y dadansoddiadau hyn ar ddata crynodol o gwestiynau dethol yr arolwg yn unig.**

- Mae ymatebion carcharorion a ddywedodd eu bod ar remánd neu’n aros am ddedfryd yn cael eu cymharu â’r rhai sydd wedi’u dedfrydu.
- Mae ymatebion carcharorion 25 oed ac iau yn cael eu cymharu ag ymatebion carcharorion dros 25 oed.
- Mae ymatebion carcharorion 50 oed a hŷn yn cael eu cymharu ag ymatebion carcharorion o dan 50 oed.
- Mae ymatebion carcharorion o bob grŵp ethnig arall yn cael eu cymharu ag ymatebion carcharorion gwyn.

- Mae ymatebion carcharorion o dramor yn cael eu cymharu ag ymatebion gwladolion Prydeinig/y DU.
- Mae ymatebion carcharorion sy'n Fwslimiaid yn cael eu cymharu ag ymatebion carcharorion nad ydynt yn Fwslimiaid.
- Mae ymatebion y carcharorion a ddywedodd fod ganddyn nhw anabledd yn cael eu cymharu ag ymatebion y carcharorion na ddywedodd hynny.
- Mae ymatebion y carcharorion a ddywedodd fod ganddyn nhw broblemau iechyd meddwl yn cael eu cymharu ag ymatebion y carcharorion na ddywedodd hynny.
- Mae ymatebion y carcharorion a ddywedodd eu bod wedi bod mewn gofal awdurdod lleol yn cael eu cymharu ag ymatebion y carcharorion na ddywedodd hynny.

Sylwch mai dim ond os oes o leiaf 10 ymateb ym mhob grŵp cymharu y byddwn yn cynnal dadansoddiad cymaryddion o fewn y carchar.

Yn y dadansoddiadau cymharol, dangosir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol drwy ddefnyddio graddliwio. Mae'r trothwy tebygolrwydd (h.y. gwerth-p) wedi'i osod ar 0.01 sy'n golygu bod tebygolrwydd o 1% mai hap a damwain sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ddau grŵp. Defnyddir y lliw gwyrdd i ddangos canlyniadau sy'n llawer mwy cadarnhaol, a defnyddir y lliw glas i ddangos canlyniadau sy'n llawer mwy negyddol. Defnyddiwyd lliw oren i ddangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol o ran demograffeg neu fanylion cefndir eraill. Os nad oes unrhyw liw, nid yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau ganlyniad yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol, ac efallai ei fod wedi digwydd drwy hap a damwain. Mae'r lliw llwyd yn dangos nad oes data cymharol dilys ar gael ar gyfer y cwestiwn hwnnw.

Mae cwestiynau wedi'u hidlo yn cael eu mewnoli ac yn cael eu rhagflaenu gan esboniad mewn italig o sut mae'r hidlydd wedi cael ei ddefnyddio. Yn y dadansoddiadau cymharol, mae canrannau ar gyfer cwestiynau wedi'u hidlo yn cyfeirio at nifer yr ymatebwyr sydd wedi'u hidlo i'r cwestiwn hwnnw. Ar gyfer pob cwestiwn arall, mae canrannau'n cyfeirio at gyfanswm yr ymatebion dilys i'r cwestiwn.

## Gwybodaeth gefndir

**1.1 Ar ba adain neu floc tŷ rydych chi'n byw ar hyn o bryd?**

| | |
|---|---|
| Adain A | 41 (33%) |
| Adain B | 8 (6%) |
| Adain C | 8 (6%) |
| Adain D | 35 (28%) |
| Adain F | 16 (13%) |
| Adain G | 16 (13%) |
| Uned wahanu | 2 (2%) |

**1.2 Faint yw eich oed?**

| | |
|---|---|
| O dan 21 oed | 8 (6%) |
| 21 - 25 | 19 (15%) |
| 26 - 29 | 13 (10%) |
| 30 - 39 | 51 (41%) |
| 40 - 49 | 20 (16%) |
| 50 - 59 | 10 (8%) |
| 60 - 69 | 3 (2%) |
| 70 neu hŷn | 1 (1%) |

**1.3 Beth yw eich grŵp ethnig?**

| | |
|---|---|
| Gwyn - Seisnig / Cymreig / Albanaidd / Gwyddelig (Gogledd) / Prydeinig | 97 (78%) |
| Gwyn - Gwyddelig | 2 (2%) |
| Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 3 (2%) |
| Gwyn - Roma | 3 (2%) |
| Gwyn - unrhyw gefndir Gwyn arall | 8 (6%) |
| Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd | 2 (2%) |
| Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd | 1 (1%) |
| Cymysg - Gwyn ac Asiaidd | 3 (2%) |
| Cymysg - unrhyw gefndir ethnig Cymysg arall | 1 (1%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd | 0 (0%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd | 1 (1%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd | 2 (2%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd | 0 (0%) |
| Asiaidd - Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 0 (0%) |
| Du neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd | 0 (0%) |
| Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd | 0 (0%) |
| Du - Cefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall | 1 (1%) |
| Arabaidd | 1 (1%) |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 0 (0%) |

**1.4 Ers faint ydych chi wedi bod yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Llai na 6 mis | 95 (77%) |
| 6 mis neu fwy | 29 (23%) |

**1.5 Ydych chi'n bwrw dedfryd ar hyn o bryd?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 56 (47%) |
| Ydw – ar adalw | 22 (18%) |
| Na – ar remánd neu'n aros am ddedfryd | 42 (35%) |
| Na - mewnfudwr a gedwir | 0 (0%) |

| | | |
|---|---|---|
| **1.6** | **Pa mor hir yw eich dedfryd?** | |
| | Llai na 6 mis | 25 (21%) |
| | 6 mis i lai na blwyddyn | 17 (14%) |
| | 1 flwyddyn i lai na 4 blynedd | 20 (17%) |
| | 4 blynedd i lai na 10 mlynedd | 13 (11%) |
| | 10 mlynedd neu fwy | 2 (2%) |
| | IPP (dedfryd amhenodol er mwyn gwarchod y cyhoedd) | 1 (1%) |
| | Oes | 0 (0%) |
| | Ddim yn bwrw dedfryd ar hyn o bryd | 42 (35%) |

**Cyrraedd a derbyn**

| | | |
|---|---|---|
| **2.1** | **Gawsoch chi wybodaeth ddefnyddiol am y carchar hwn cyn i chi ddod yma?** | |
| | Do | 44 (36%) |
| | Naddo | 68 (56%) |
| | Ddim yn cofio | 10 (8%) |
| **2.2** | **Pan wnaethoch chi gyrraedd y carchar hwn, faint o amser wnaethoch chi ei dreulio yn y dderbynfa?** | |
| | Llai na 2 awr | 75 (61%) |
| | 2 awr neu fwy | 39 (32%) |
| | Ddim yn cofio | 8 (7%) |
| **2.3** | **Pan roeddech chi'n cael eich chwilio yn y dderbynfa, a gafodd hyn ei wneud mewn ffordd barchus?** | |
| | Do | 103 (86%) |
| | Naddo | 16 (13%) |
| | Ddim yn cofio | 1 (1%) |
| **2.4** | **Yn gyffredinol, sut cawsoch chi eich trin yn y dderbynfa?** | |
| | Da iawn | 47 (39%) |
| | Eithaf da | 63 (52%) |
| | Eithaf gwael | 5 (4%) |
| | Yn wael iawn | 5 (4%) |
| | Ddim yn cofio | 1 (1%) |
| **2.5** | **Pan gyrhaeddoch chi yma am y tro cyntaf, a gawsoch chi unrhyw un o'r problemau canlynol?** | |
| | Problemau cael rhifau ffôn | 36 (29%) |
| | Cysylltu â'r teulu | 37 (30%) |
| | Trefnu gofal ar gyfer plant neu ddibynyddion eraill | 4 (3%) |
| | Cysylltu â chyflogwyr | 4 (3%) |
| | Pryderon ariannol | 38 (31%) |
| | Pryderon tai | 29 (23%) |
| | Teimlo'n isel | 49 (40%) |
| | Teimlo fel lladd eich hun | 19 (15%) |
| | Problemau iechyd meddwl eraill | 48 (39%) |
| | Problemau iechyd corfforol | 25 (20%) |
| | Problemau cyffuriau neu alcohol (e.e. diddyfnu) | 38 (31%) |
| | Problemau wrth gael meddyginiaeth | 41 (33%) |
| | Angen eich amddiffyn rhag carcharorion eraill | 9 (7%) |
| | Eiddo coll neu wedi'i oedi | 14 (11%) |
| | Problemau eraill | 17 (14%) |
| | Heb gael unrhyw broblemau | 29 (23%) |

**2.6 A wnaeth y staff eich helpu i ddelio â'r problemau hyn pan gyrhaeddoch chi gyntaf?**

| | |
|---|---|
| Do | 46 (38%) |
| Naddo | 45 (38%) |
| Doedd gen i ddim problemau pan wnes i gyrraedd am y tro cyntaf | 29 (24%) |

## Noson gyntaf a sesiwn gynefino

**3.1 Cyn i chi gael eich cloi ar eich noson gyntaf yma, a gawsoch chi gynnig unrhyw un o'r pethau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Amnewid nicotin | 92 (75%) |
| Pethau ymolchi/eitemau sylfaenol eraill | 85 (69%) |
| Cawod | 77 (63%) |
| Galwad ffôn am ddim | 85 (69%) |
| Rhywbeth i'w fwyta | 101 (82%) |
| Cyfle i weld rhywun o ofal iechyd | 90 (73%) |
| Cyfle i siarad â Gwrandäwr neu'r Samariaid | 54 (44%) |
| Cefnogaeth gan garcharor arall (e.e. Rhywun o'r tu mewn neu gyfaill) | 53 (43%) |
| Ni chynigiwyd unrhyw un o'r pethau hyn | 4 (3%) |

**3.2 Ar eich noson gyntaf yn y carchar hwn, pa mor lân neu fudr oedd eich cell?**

| | |
|---|---|
| Glân iawn | 16 (13%) |
| Eithaf glân | 52 (43%) |
| Eithaf budr | 35 (29%) |
| Budr iawn | 13 (11%) |
| Ddim yn cofio | 4 (3%) |

**3.3 Oeddech chi'n teimlo'n ddiogel ar eich noson gyntaf yma?**

| | |
|---|---|
| Oeddwn | 96 (80%) |
| Nac oeddwn | 20 (17%) |
| Ddim yn cofio | 4 (3%) |

**3.4 Yn ystod eich diwrnodau cyntaf yma, gawsoch chi:**

| | Do | Naddo | Ddim yn cofio |
|---|---|---|---|
| Mynediad i siop/ffreutur y carchar? | 34 (29%) | 78 (67%) | 4 (3%) |
| Credyd ffôn PIN am ddim? | 89 (76%) | 26 (22%) | 2 (2%) |
| Rhoi rhifau ar eich ffôn PIN o fewn 24 awr? | 48 (43%) | 58 (52%) | 5 (5%) |

**3.5 A oedd eich sesiwn gynefino yn cynnwys popeth yr oedd angen i chi ei wybod am y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Oedd | 62 (53%) |
| Nac oedd | 44 (37%) |
| Heb gael sesiwn gynefino | 12 (10%) |

## Ar yr adain

**4.1 Ydych chi mewn cell ar eich pen eich hun?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 21 (17%) |

Na, rydw i mewn cell neu ddortur sy'n cael ei rhannu .............. 101 (83%)

**4.2 Ydy cloch eich cell yn cael ei hateb o fewn 5 munud fel arfer?**

Ydy ........................................................................................ 80 (67%)
Nac ydy .................................................................................. 17 (14%)
Ddim yn gwybod ...................................................................... 22 (18%)
Nid oes gennyf gloch galw yn y gell ........................................ 1 (1%)

**4.3 Atebwch y cwestiynau canlynol am yr adain neu'r bloc tŷ yr ydych yn byw ynddo ar hyn o bryd:**

| | Oes / Ydw / Ydy / Gallaf | Na | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Oes gennych chi ddigon o sebon neu hylif diheintio dwylo i gadw eich dwylo'n lân? | 99 (80%) | 23 (19%) | 2 (2%) |
| Oes gennych chi ddigon o ddillad glân, addas ar gyfer yr wythnos fel arfer? | 92 (74%) | 28 (23%) | 4 (3%) |
| Ydych chi'n gallu cael cawod bob dydd? | 114 (93%) | 7 (6%) | 2 (2%) |
| Ydych chi'n cael dillad gwely glân bob wythnos? | 99 (80%) | 20 (16%) | 5 (4%) |
| Ydych chi'n cael deunyddiau i lanhau'r gell bob wythnos? | 81 (67%) | 35 (29%) | 5 (4%) |
| A yw fel arfer yn ddigon tawel i chi ymlacio neu gysgu yn y nos? | 81 (68%) | 37 (31%) | 1 (1%) |
| Allwch chi gael eich eiddo sydd wedi'i storio yn brydlon, os oes ei angen arnoch? | 30 (25%) | 53 (44%) | 38 (31%) |

**4.4 Fel arfer, pa mor lân neu fudr yw'r ardaloedd cymunol/sy'n cael eu rhannu yn eich adain neu floc tŷ (y landin, y grisiau, cawodydd yr adain ac ati)?**

Glân iawn ............................................................................... 43 (35%)
Eithaf glân .............................................................................. 66 (54%)
Eithaf budr .............................................................................. 12 (10%)
Budr iawn ............................................................................... 1 (1%)

## Bwyd a ffreutur

**5.1 Beth yw ansawdd y bwyd yn y carchar hwn?**

Da iawn .................................................................................. 15 (12%)
Eithaf da ................................................................................. 52 (42%)
Eithaf gwael ............................................................................ 34 (27%)
Gwael iawn ............................................................................. 23 (19%)

**5.2 Ydych chi'n cael digon i'w fwyta amser bwyd?**

Bob amser ............................................................................... 24 (20%)
Y rhan fwyaf o'r amser ............................................................ 25 (21%)
Weithiau ................................................................................. 53 (44%)
Byth ........................................................................................ 19 (16%)

**5.3 Ydy'r siop/cantîn yn gwerthu'r pethau sydd eu hangen arnoch?**

Ydy ........................................................................................ 75 (60%)
Nac ydy .................................................................................. 35 (28%)
Ddim yn gwybod ...................................................................... 14 (11%)

## Perthynas gyda staff

**6.1 Ydy'r rhan fwyaf o'r staff yma yn eich trin chi â pharch?**

Ydy ........................................................................................ 96 (79%)

Nac ydy ............................................................................... 26 (21%)

**6.2 Petai gennych chi broblem, fyddech chi'n gallu dweud wrth unrhyw staff yma?**

Byddwn.................................................................................. 99 (83%)
Na fyddwn ............................................................................ 21 (18%)

**6.3 Yn ystod yr wythnos diwethaf, a oes unrhyw aelod o'r staff wedi gofyn i chi sut ydych chi?**

Oes...................................................................................... 57 (47%)
Nac oes ................................................................................ 64 (53%)

**6.4 Pa mor ddefnyddiol yw eich swyddog dynodedig (gweithiwr allweddol)?**

Defnyddiol iawn ...................................................................... 34 (29%)
Eithaf defnyddiol..................................................................... 23 (20%)
Ddim yn ddefnyddiol iawn......................................................... 16 (14%)
Ddim yn ddefnyddiol o gwbl....................................................... 9 (8%)
Dim swyddog penodedig (gweithiwr allweddol).......................... 34 (29%)

**6.5 Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich trin fel unigolyn yn y carchar hwn?**

Ydw ...................................................................................... 73 (62%)
Nac ydw................................................................................. 44 (38%)

**6.6 A ymgynghorir â charcharorion yma am bethau fel bwyd, ffreutur, gofal iechyd neu faterion yn ymwneud a'r adain?**

Gwneir, ac weithiau mae pethau'n newid .................................. 29 (24%)
Gwneir, ond dydy pethau ddim yn newid.................................... 27 (23%)
Na......................................................................................... 35 (29%)
Ddim yn gwybod..................................................................... 29 (24%)

**6.7 Petai chi eisiau gwneud hynny, allwch chi siarad â rheolwyr, llywodraethwyr neu gyfarwyddwyr yn y carchar hwn?**

Gallwn ................................................................................... 37 (31%)
Na allwn................................................................................. 38 (32%)
Ddim yn gwybod..................................................................... 45 (38%)

**6.8 Os ydych chi wedi rhannu problem gyda rheolwr, llywodraethwr neu gyfarwyddwr, a wnaethon nhw geisio eich helpu chi?**

Do........................................................................................ 23 (20%)
Naddo.................................................................................... 33 (28%)
Ddim wedi rhannu problem....................................................... 61 (52%)

## Ffydd

**7.1 Beth yw eich crefydd?**

Dim crefydd ........................................................................... 55 (45%)
Cristnogaeth (gan gynnwys Eglwys Loegr, Catholig, Protestant a phob enwad Cristnogol arall)................................................. 51 (42%)
Bwdhaeth .............................................................................. 2 (2%)
Hindŵaeth ............................................................................. 0 (0%)
Iddewiaeth ............................................................................ 1 (1%)
Islam..................................................................................... 13 (11%)
Sikhiaeth................................................................................ 0 (0%)
Arall ...................................................................................... 0 (0%)

**7.2 A yw eich credoau crefyddol yn cael eu parchu yma?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | 52 (43%) |
| Nac ydynt | 4 (3%) |
| Ddim yn gwybod | 9 (8%) |
| Amherthnasol (dim crefydd) | 55 (46%) |

**7.3 Ydych chi'n gallu siarad â chaplan eich ffydd yn breifat, os ydych chi eisiau gwneud hynny?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 51 (42%) |
| Nac ydw | 6 (5%) |
| Ddim yn gwybod | 9 (7%) |
| Amherthnasol (dim crefydd) | 55 (45%) |

**7.4 Ydych chi'n gallu mynychu gwasanaethau crefyddol, os ydych chi'n dymuno gwneud hynny?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 54 (44%) |
| Nac ydw | 7 (6%) |
| Ddim yn gwybod | 6 (5%) |
| Amherthnasol (dim crefydd) | 55 (45%) |

## Cyswllt â theulu a ffrindiau

**8.1 Pa mor aml ydych chi wedi gallu gweld eich teulu a'ch ffrindiau yn ystod <u>y mis diwethaf</u>:**

| | Bob wythnos | Dwy neu dair gwaith yr wythnos | Unwaith | Ddim o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| Wyneb yn wyneb (ymweliad â'r carchar)? | 19 (18%) | 19 (18%) | 16 (15%) | 54 (50%) |
| Drwy alwad fideo? | 5 (6%) | 4 (4%) | 6 (7%) | 74 (83%) |

**8.2 A yw ymweliadau fel arfer yn dechrau ac yn gorffen ar amser?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | 38 (32%) |
| Nac ydynt | 24 (21%) |
| Ddim yn gwybod | 55 (47%) |

**8.3 A yw eich ymwelwyr yn cael eu trin yn barchus gan staff fel arfer?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | 44 (38%) |
| Nac ydynt | 7 (6%) |
| Ddim yn gwybod | 66 (56%) |

**8.4 Pa mor hawdd neu anodd yw hi i'ch teulu a'ch ffrindiau gyrraedd yma?**

| | |
|---|---|
| Hawdd iawn | 16 (14%) |
| Eithaf hawdd | 33 (28%) |
| Eithaf anodd | 17 (15%) |
| Anodd iawn | 25 (21%) |
| Ddim yn gwybod | 26 (22%) |

**8.5 Ydy'r staff yma wedi eich annog chi i gadw mewn cysylltiad â'ch teulu/ffrindiau?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | 40 (35%) |
| Nac ydynt | 75 (65%) |

**8.6 Ydych chi wedi cael unrhyw broblemau wrth anfon neu dderbyn:**

| | Do | Naddo |
|---|---|---|
| E-bost? | 34 (33%) | 69 (67%) |
| Llythyrau? | 31 (30%) | 74 (70%) |
| Parseli? | 25 (26%) | 73 (74%) |

**8.7 Ydych chi'n gallu defnyddio'r ffôn bob dydd (os oes gennych chi gredyd)?**

Ydw .......... 107 (93%)
Nac ydw.......... 8 (7%)

## Amser allan o'r gell

**9.1 Ydych chi'n gwybod beth yw'r amseroedd datgloi a chloi yma (neu amseroedd gwirio'r gofrestr os ydych chi mewn carchar agored)?**

Ydw, a chadwir at yr amseroedd hyn fel arfer .......... 63 (55%)
Ydw, ond ni chadwir at yr amseroedd hyn fel arfer.......... 34 (30%)
Nac ydw.......... 18 (16%)

**9.2 Faint o amser ydych chi'n ei dreulio allan o'ch cell fel arfer ar ddiwrnod arferol o'r wythnos (gan gynnwys faint o amser rydych chi'n ei dreulio mewn addysg, gwaith ac ati)?**

Llai na 2 awr.......... 48 (39%)
2-6 awr .......... 39 (32%)
6-10 awr .......... 19 (15%)
10 awr neu fwy .......... 8 (7%)
Ddim yn gwybod.......... 9 (7%)

**9.3 Faint o amser fyddwch chi'n ei dreulio allan o'ch cell fel arfer ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul arferol?**

Llai na 2 awr.......... 84 (69%)
2-6 awr .......... 17 (14%)
6-10 awr .......... 11 (9%)
10 awr neu fwy .......... 0 (0%)
Ddim yn gwybod.......... 10 (8%)

**9.4 Sawl diwrnod mewn wythnos arferol ydych chi'n cael amser i wneud pethau domestig (cawod, glanhau cell, defnyddio ffonau'r adain ac ati)?**

Dim un.......... 1 (1%)
1 neu 2 .......... 18 (15%)
3 i 5 .......... 32 (26%)
Mwy na 5.......... 62 (50%)
Ddim yn gwybod.......... 10 (8%)

**9.5 Sawl diwrnod mewn wythnos arferol ydych chi'n cael cyswllt, os ydych chi eisiau hynny?**

Dim un.......... 1 (1%)
1 neu 2 .......... 13 (11%)
3 i 5 .......... 25 (21%)
Mwy na 5.......... 68 (57%)
Ddim yn gwybod.......... 13 (11%)

**9.6 Sawl diwrnod mewn wythnos arferol allech chi fynd allan i wneud ymarfer corff, os oeddech chi eisiau gwneud hynny?**

| | |
|---|---|
| Dim un | 2 (2%) |
| 1 neu 2 | 6 (5%) |
| 3 i 5 | 21 (17%) |
| Mwy na 5 | 80 (65%) |
| Ddim yn gwybod | 14 (11%) |

**9.7 Fel arfer, pa mor aml fyddwch chi'n mynd i'r gampfa neu'n cymryd rhan mewn chwaraeon?**

| | |
|---|---|
| Dwywaith yr wythnos neu fwy | 47 (39%) |
| Tua unwaith yr wythnos | 19 (16%) |
| Llai nag unwaith yr wythnos | 5 (4%) |
| Byth | 50 (41%) |

**9.8 Fel arfer, pa mor aml ydych chi'n gallu:**

| | Dwywaith yr wythnos neu fwy | Tua unwaith yr wythnos | Llai nag unwaith yr wythnos | Byth |
|---|---|---|---|---|
| Ymweld â'r llyfrgell | 11 (10%) | 56 (49%) | 12 (10%) | 36 (31%) |
| Gwneud yn siŵr bod deunyddiau'r llyfrgell yn cael eu danfon i chi | 7 (7%) | 19 (18%) | 6 (6%) | 74 (70%) |

**9.9 A oes gan y llyfrgell ystod ddigon eang o ddeunyddiau i ddiwallu eich anghenion?**

| | |
|---|---|
| Oes | 50 (51%) |
| Nac oes | 12 (12%) |
| Nid wyf yn defnyddio'r llyfrgell | 36 (37%) |

## Ceisiadau, cwynion a hawliau cyfreithiol

**10.1 Ydy hi'n hawdd i chi wneud cais?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 83 (70%) |
| Nac ydy | 26 (22%) |
| Ddim yn gwybod | 9 (8%) |

**10.2 Os ydych chi wedi gwneud unrhyw geisiadau yma, atebwch y cwestiynau isod:**

| | Gwneir | Na wneir | Heb wneud unrhyw geisiadau |
|---|---|---|---|
| A ymdrinnir â cheisiadau'n deg fel arfer? | 55 (48%) | 40 (35%) | 20 (17%) |
| A ymdrinnir â cheisiadau o fewn 7 diwrnod fel arfer? | 49 (45%) | 39 (36%) | 20 (19%) |

**10.3 Ydy hi'n hawdd i chi wneud cwyn?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 57 (49%) |
| Nac ydy | 27 (23%) |
| Ddim yn gwybod | 33 (28%) |

**10.4 Os ydych chi wedi gwneud unrhyw gwynion yma, atebwch y cwestiynau isod:**

| | Gwneir | Na wneir | Heb wneud unrhyw gwynion |
|---|---|---|---|
| A ymdrinnir â chwynion yn deg fel arfer? | 20 (18%) | 31 (27%) | 62 (55%) |
| A ymdrinnir â chwynion o fewn 7 diwrnod fel arfer? | 17 (15%) | 32 (29%) | 62 (56%) |

**10.5 Ydych chi erioed wedi cael eich atal rhag cwyno yma pan oeddech chi eisiau gwneud hynny?**

Ydw ........ 24 (21%)
Nac ydw........ 49 (43%)
Nid wyf wedi bod eisiau gwneud cwyn ........ 42 (37%)

**10.6 Yn y carchar hwn, ydy hi'n hawdd, neu'n anodd, i chi:**

| | Hawdd | Anodd | Ddim yn gwybod | Nid wyf angen hyn |
|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu gyda'ch cyfreithiwr neu gynrychiolydd cyfreithiol? | 57 (48%) | 27 (23%) | 25 (21%) | 11 (9%) |
| Mynychu ymweliadau cyfreithiol? | 56 (50%) | 16 (14%) | 28 (25%) | 13 (12%) |

**10.7 A yw'r staff yma erioed wedi agor llythyrau gan eich twrnai neu eich cynrychiolydd cyfreithiol pan nad oeddech chi'n bresennol?**

Ydynt........ 39 (32%)
Nac ydynt ........ 59 (49%)
Ddim wedi cael unrhyw lythyrau cyfreithiol........ 23 (19%)

## Gofal iechyd

**11.1 Os oes cyfyngiadau ar waith ar hyn o bryd oherwydd pandemig COVID-19:**

| | Ydw / Ydynt | Na | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n gwybod pa gyfyngiadau sydd ar waith yma? | 32 (27%) | 49 (42%) | 36 (31%) |
| Ydy'r rhesymau dros y cyfyngiadau wedi cael eu hegluro i chi? | 25 (22%) | 4 (4%) | 85 (75%) |
| Ydych chi'n cytuno bod angen y cyfyngiadau? | 29 (25%) | 3 (3%) | 85 (73%) |
| Ydych chi'n teimlo eich bod chi wedi cael eich cadw'n ddiogel rhag y feirws? | 42 (38%) | 31 (28%) | 39 (35%) |

**11.2 Pa mor hawdd neu anodd yw gweld y bobl ganlynol?**

| | Hawdd iawn | Eithaf hawdd | Eithaf anodd | Anodd iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Doctor | 13 (10%) | 20 (16%) | 33 (27%) | 41 (33%) | 17 (14%) |
| Nyrs | 25 (21%) | 36 (30%) | 25 (21%) | 22 (18%) | 13 (11%) |
| Deintydd | 10 (8%) | 9 (7%) | 32 (26%) | 51 (41%) | 21 (17%) |
| Fferyllydd | 24 (20%) | 30 (25%) | 18 (15%) | 24 (20%) | 25 (21%) |
| Gweithwyr iechyd meddwl | 20 (17%) | 20 (17%) | 25 (21%) | 28 (23%) | 27 (23%) |
| Gweithwyr camddefnyddio sylweddau | 21 (18%) | 25 (21%) | 18 (15%) | 16 (14%) | 38 (32%) |

**11.3 Beth yw'ch barn chi am ansawdd cyffredinol y gwasanaethau iechyd a geir gan y bobl ganlynol?**

| | Da iawn | Eithaf da | Eithaf gwael | Gwael iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Doctor | 17 (14%) | 36 (30%) | 19 (16%) | 21 (17%) | 28 (23%) |
| Nyrs | 30 (24%) | 46 (37%) | 12 (10%) | 13 (11%) | 22 (18%) |
| Deintydd | 19 (16%) | 26 (22%) | 15 (13%) | 20 (17%) | 40 (33%) |
| Fferyllydd | 26 (21%) | 30 (25%) | 14 (12%) | 13 (11%) | 38 (31%) |
| Gweithwyr iechyd meddwl | 23 (19%) | 31 (26%) | 11 (9%) | 18 (15%) | 37 (31%) |
| Gweithwyr camddefnyddio sylweddau | 27 (23%) | 21 (18%) | 11 (9%) | 9 (8%) | 50 (42%) |

**11.4 Beth yw'ch barn chi am ansawdd cyffredinol y gwasanaethau iechyd sydd ar gael yma?**

Da iawn ........................................ 18 (15%)
Eithaf da ........................................ 46 (39%)
Eithaf gwael ........................................ 23 (19%)
Gwael iawn ........................................ 18 (15%)
Ddim yn gwybod ........................................ 14 (12%)

**11.5 Oes gennych chi unrhyw broblemau iechyd meddwl?**

Oes ........................................ 83 (70%)
Nac oes ........................................ 35 (30%)

**11.6 A yw eich iechyd meddwl wedi gwella neu wedi gwaethygu ers cyrraedd y carchar hwn?**

Gwella ........................................ 17 (14%)
Gwaethygu ........................................ 64 (54%)
Dim gwahaniaeth ........................................ 37 (31%)

**11.7 Ydych chi wedi cael help gyda'ch iechyd meddwl yn y carchar hwn?**

Ydw ........................................ 34 (29%)
Nac ydw ........................................ 57 (49%)
Nid wyf wedi bod angen help gydag iechyd meddwl ........................................ 26 (22%)

## Anghenion cymorth eraill

**12.1 Ydych chi'n ystyried bod gennych chi anabledd (anghenion corfforol, meddyliol neu ddysgu tymor hir sy'n effeithio ar eich bywyd bob dydd)?**

Ydw ........................................ 57 (48%)
Nac ydw ........................................ 62 (52%)

**12.2 Os oes gennych chi anabledd, ydych chi'n cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch?**

Ydw ........................................ 20 (18%)
Nac ydw ........................................ 32 (28%)
Dim anabledd ........................................ 62 (54%)

**12.3 Ydych chi wedi bod ar ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm) yn y carchar hwn?**

Ydw ........................................ 30 (25%)
Nac ydw ........................................ 89 (75%)

**12.4 Os ydych chi wedi bod ar ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm) yn y carchar hwn, oedd y staff yn gofalu amdanoch chi?**

| | |
|---|---|
| Oeddent | 17 (14%) |
| Nac oeddent | 13 (11%) |
| Heb fod ar ACCT yn y carchar hwn | 89 (75%) |

**12.5 Pa mor hawdd neu anodd yw hi i chi siarad â Gwrandäwr, os oes angen i chi wneud hynny?**

| | |
|---|---|
| Hawdd iawn | 35 (29%) |
| Eithaf hawdd | 32 (27%) |
| Eithaf anodd | 7 (6%) |
| Anodd iawn | 5 (4%) |
| Ddim yn gwybod | 39 (33%) |
| Dim Gwrandawyr yn y carchar hwn | 2 (2%) |

## Alcohol a chyffuriau

**13.1 A oedd gennych chi broblem alcohol pan ddaethoch chi i'r carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Oedd | 47 (39%) |
| Nac oedd | 74 (61%) |

**13.2 Ydych chi wedi cael help gyda'ch problem alcohol yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 33 (27%) |
| Nac ydw | 15 (12%) |
| Doedd/does gen i ddim problem alcohol | 74 (61%) |

**13.3 A oedd gennych chi broblem gyffuriau pan ddaethoch chi i'r carchar hwn (gan gynnwys cyffuriau anghyfreithlon a meddyginiaeth nad oedd ar bresgripsiwn i chi)?**

| | |
|---|---|
| Oedd | 53 (44%) |
| Nac oedd | 68 (56%) |

**13.4 Ydych chi wedi datblygu problem gyda chyffuriau anghyfreithlon ers i chi fod yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 15 (13%) |
| Nac ydw | 105 (88%) |

**13.5 Ydych chi wedi datblygu problem gyda chymryd meddyginiaeth nad yw ar bresgripsiwn i chi ers i chi fod yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 19 (16%) |
| Nac ydw | 102 (84%) |

**13.6 A ydych wedi cael help gyda'ch problem gyffuriau yn y carchar hwn (gan gynnwys cyffuriau anghyfreithlon a meddyginiaeth nad oedd ar bresgripsiwn i chi)?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 34 (29%) |
| Nac ydw | 22 (19%) |
| Doedd/does gen i ddim problem gyffuriau | 60 (52%) |

**13.7 Ydy hi'n hawdd neu'n anodd cael cyffuriau anghyfreithlon yn y carchar yma?**

| | |
|---|---|
| Hawdd iawn | 12 (10%) |
| Eithaf hawdd | 14 (12%) |
| Eithaf anodd | 6 (5%) |
| Anodd iawn | 11 (9%) |
| Ddim yn gwybod | 76 (64%) |

**13.8 Ydy hi'n hawdd neu'n anodd cael alcohol yn y carchar yma?**

| | |
|---|---|
| Hawdd iawn | 2 (2%) |
| Eithaf hawdd | 3 (3%) |
| Eithaf anodd | 9 (8%) |
| Anodd iawn | 26 (22%) |
| Ddim yn gwybod | 77 (66%) |

**13.9 Ydy hi'n hawdd neu'n anodd cael tybaco yn y carchar yma?**

| | |
|---|---|
| Hawdd iawn | 3 (3%) |
| Eithaf hawdd | 3 (3%) |
| Eithaf anodd | 12 (10%) |
| Anodd iawn | 23 (19%) |
| Ddim yn gwybod | 78 (66%) |

## Diogelwch

**14.1 Ydych chi erioed wedi teimlo'n anniogel yma?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 40 (32%) |
| Nac ydw | 85 (68%) |

**14.2 Ydych chi'n teimlo eich bod chi ddim yn ddiogel ar hyn o bryd?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 19 (16%) |
| Nac ydw | 99 (84%) |

**14.3 Ydych chi wedi profi unrhyw un o'r mathau canlynol o fwlio/erledigaeth gan garcharorion eraill yma?**

| | |
|---|---|
| Cam-drin geiriol | 25 (22%) |
| Bygythiadau neu frawychu | 20 (18%) |
| Ymosodiad corfforol | 13 (11%) |
| Ymosodiad rhywiol | 3 (3%) |
| Lladrad cantîn neu eiddo | 16 (14%) |
| Bwlio/erledigaeth arall | 19 (17%) |
| Heb brofi unrhyw un o'r rhain gan garcharorion yma | 80 (70%) |

**14.4 Pe baech chi'n cael eich bwlio/erlid gan garcharorion eraill yma, fyddech chi'n ei riportio?**

| | |
|---|---|
| Byddwn | 46 (38%) |
| Na fyddwn | 74 (62%) |

**14.5 Ydych chi wedi profi unrhyw un o'r mathau canlynol o fwlio/erledigaeth gan staff yma?**

| | |
|---|---|
| Cam-drin geiriol | 28 (24%) |
| Bygythiadau neu frawychu | 16 (14%) |
| Ymosodiad corfforol | 11 (9%) |
| Ymosodiad rhywiol | 2 (2%) |
| Lladrad cantîn neu eiddo | 7 (6%) |
| Bwlio/erledigaeth arall | 18 (15%) |
| Heb brofi unrhyw un o'r rhain gan staff yma | 83 (70%) |

**14.6 Pe baech chi'n cael eich bwlio/erlid gan staff eraill yma, fyddech chi'n ei riportio?**

| | |
|---|---|
| Byddwn | 63 (54%) |
| Na fyddwn | 54 (46%) |

## Rheoli ymddygiad

**15.1 A yw'r cymhellion neu'r gwobrau yn y carchar hwn (e.e. statws uwch) yn eich annog i ymddwyn yn dda?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | 63 (51%) |
| Nac ydynt | 29 (24%) |
| Ddim yn gwybod beth yw'r cymhellion/gwobrau | 31 (25%) |

**15.2 Ydych chi'n teimlo eich bod chi wedi cael eich trin yn deg yn y cynllun rheoli ymddygiad (e.e. cymhellion) yn y carchar yma?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 46 (37%) |
| Nac ydw | 31 (25%) |
| Ddim yn gwybod | 21 (17%) |
| Dydw i ddim yn gwybod beth ydy hyn | 26 (21%) |

**15.3 Ydych chi wedi cael eich atal yn gorfforol gan staff yn y carchar hwn yn ystod y 6 mis diwethaf?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 10 (8%) |
| Nac ydw | 113 (92%) |

**15.4 Os ydych chi wedi cael eich atal yn gorfforol gan staff yn y carchar hwn yn ystod y 6 mis diwethaf, a ddaeth unrhyw un i siarad â chi am y peth wedyn?**

| | |
|---|---|
| Do | 3 (2%) |
| Naddo | 4 (3%) |
| Ddim yn cofio | 2 (2%) |
| Heb gael fy atal yn gorfforol yma yn y 6 mis diwethaf | 113 (93%) |

**15.5 Ydych chi wedi treulio un noson neu fwy yn yr uned wahanu yn y carchar hwn yn y 6 mis diwethaf?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 20 (17%) |
| Nac ydw | 95 (83%) |

**15.6 Os ydych chi wedi treulio un noson neu fwy yn yr uned gwahanu yn y carchar hwn yn ystod y 6 mis diwethaf, atebwch y cwestiynau isod:**

| | Oeddwn / Gallwn | Na |
|---|---|---|
| Oeddech chi'n cael eich trin yn dda gan staff gwahanu? | 8 (42%) | 11 (58%) |
| Oeddech chi'n gallu cael cawod bob dydd? | 11 (58%) | 8 (42%) |
| Allech chi fynd allan i wneud ymarfer corff bob dydd? | 8 (42%) | 11 (58%) |
| Oeddech chi'n gallu defnyddio'r ffôn bob dydd, os oes gennych chi gredyd? | 8 (40%) | 12 (60%) |

## Addysg, sgiliau a gwaith

**16.1 Ydy hi'n hawdd, neu'n anodd, cymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol yn y carchar hwn?**

| | Hawdd | Anodd | Ddim yn gwybod | Ddim ar gael yma |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | 58 (53%) | 30 (27%) | 21 (19%) | 1 (1%) |
| Hyfforddiant galwedigaethol neu sgiliau | 47 (44%) | 30 (28%) | 29 (27%) | 1 (1%) |
| Swydd yn y carchar | 44 (41%) | 39 (36%) | 23 (21%) | 1 (1%) |
| Gwaith gwirfoddol y tu allan i'r carchar | 9 (8%) | 24 (23%) | 42 (40%) | 31 (29%) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwaith cyflogedig y tu allan i'r carchar | 13 (12%) | 20 (19%) | 43 (40%) | 32 (30%) |

**16.2 Os ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r gweithgareddau hyn yn y carchar hwn, ydych chi'n meddwl y byddan nhw'n eich helpu chi ar ôl cael eich rhyddhau?**

| | Ydw, byddant yn helpu | Nac ydw, ni fyddant yn helpu | Heb wneud hyn |
|---|---|---|---|
| Addysg | 45 (43%) | 18 (17%) | 41 (39%) |
| Hyfforddiant galwedigaethol neu sgiliau | 48 (46%) | 15 (14%) | 42 (40%) |
| Swydd yn y carchar | 46 (45%) | 25 (24%) | 32 (31%) |
| Gwaith gwirfoddol y tu allan i'r carchar | 26 (26%) | 12 (12%) | 62 (62%) |
| Gwaith cyflogedig y tu allan i'r carchar | 29 (29%) | 9 (9%) | 62 (62%) |

**16.3 Ydy'r staff yn eich annog i fynychu addysg, hyfforddiant neu waith?**

Ydynt ........ 60 (52%)
Nac ydynt ........ 42 (37%)
Ddim yn berthnasol (e.e. os ydych chi wedi ymddeol, yn sâl neu ar remánd)........ 13 (11%)

## Cynllunio a chynnydd

**17.1 Oes gennych chi gynllun cystodaeth? (Efallai y gelwir hyn yn gynllun dedfryd neu'n gynllun ailsefydlu.)**

Oes........ 28 (24%)
Nac oes ........ 87 (76%)

**17.2 Ydych chi'n deall beth mae angen i chi ei wneud i gyflawni'r amcanion neu'r targedau yn eich cynllun cystodaeth?**

Ydw ........ 24 (86%)
Nac ydw........ 2 (7%)
Ddim yn gwybod beth yw fy amcanion neu fy nhargedau........ 2 (7%)

**17.3 Ydy'r staff yma yn eich helpu i gyflawni eich amcanion neu'ch targedau?**

Ydynt ........ 20 (71%)
Nac ydynt ........ 6 (21%)
Ddim yn gwybod beth yw fy amcanion neu fy nhargedau........ 2 (7%)

**17.4 Os ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r pethau canlynol yn y carchar hwn, a wnaethon nhw eich helpu i gyflawni eich amcanion neu dargedau?**

| | Do, roedd hyn o gymorth | Na, wnaeth hyn ddim helpu | Ddim wedi'i wneud/ ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Rhaglenni ymddygiad troseddol | 11 (39%) | 3 (11%) | 14 (50%) |
| Rhaglenni eraill | 13 (50%) | 1 (4%) | 12 (46%) |
| Gwaith un-i-un (e.e. gyda Rheolwr Troseddwyr neu seicolegydd) | 11 (42%) | 1 (4%) | 14 (54%) |
| Wedi bod ar uned arbenigol | 6 (24%) | 2 (8%) | 17 (68%) |
| ROTL - rhyddhau am ddiwrnod neu dros nos | 3 (13%) | 0 (0%) | 21 (88%) |

## Paratoi at ryddhau

**18.1 Ydych chi'n disgwyl cael eich rhyddhau yn y 3 mis nesaf?**

Ydw ........................................................................................ 50 (43%)
Nac ydw.................................................................................... 43 (37%)
Ddim yn gwybod........................................................................ 22 (19%)

**18.2 Pa mor agos yw'r carchar hwn at ardal eich cartref neu gyfeiriad rhyddhau arfaethedig?**

Agos iawn.................................................................................. 10 (20%)
Yn eithaf agos .......................................................................... 19 (39%)
Eithaf pell................................................................................. 12 (24%)
Yn bell iawn .............................................................................. 8 (16%)

**18.3 A oes unrhyw un yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich rhyddhau (e.e. swyddog prawf cartref, swyddog cyfrifol, gweithiwr achos)?**

Oes........................................................................................... 31 (63%)
Nac oes .................................................................................... 18 (37%)

**18.4 Ydych chi'n cael help i gael trefn ar y pethau canlynol pan fyddwch yn cael eich rhyddhau?**

| | Ydw, rydw i'n cael help gyda hyn | Nac ydw, ond mae angen help arnaf gyda hyn | Na, a does dim angen help arnaf gyda hyn |
|---|---|---|---|
| Dod o hyd i lety | 14 (31%) | 15 (33%) | 16 (36%) |
| Cael gwaith | 11 (24%) | 14 (30%) | 21 (46%) |
| Trefnu addysg neu hyfforddiant | 8 (18%) | 14 (31%) | 23 (51%) |
| Trefnu budd-daliadau | 9 (20%) | 23 (52%) | 12 (27%) |
| Cael trefn ar faterion ariannol | 8 (18%) | 21 (47%) | 16 (36%) |
| Cefnogaeth ar gyfer problemau cyffuriau neu alcohol | 12 (27%) | 11 (24%) | 22 (49%) |
| Cymorth iechyd corfforol/meddwl | 8 (19%) | 21 (49%) | 14 (33%) |
| Cefnogaeth gofal cymdeithasol | 6 (14%) | 15 (35%) | 22 (51%) |
| Dod yn ôl mewn cysylltiad â theulu neu ffrindiau | 7 (15%) | 13 (28%) | 26 (57%) |

## Mwy amdanoch chi

**19.1 Oes gennych chi blant o dan 18 oed?**

Oes........................................................................................... 62 (53%)
Nac oes .................................................................................... 56 (47%)

**19.2 Ydych chi'n ddinesydd Prydeinig/y DU?**

Ydw ........................................................................................ 104 (89%)
Nac ydw.................................................................................... 13 (11%)

**19.3 Ydych chi erioed wedi bod mewn gofal awdurdod lleol (e.e. wedi byw gyda rhieni maeth neu mewn cartref plant, neu wedi cael gweithiwr cymdeithasol, pan oeddech chi o dan 18 oed)?**

Ydw ........................................................................................ 37 (31%)
Nac ydw.................................................................................... 81 (69%)

**19.4 Ydych chi erioed wedi bod yn y lluoedd arfog (e.e. y fyddin, y llynges, y llu awyr)?**

Ydw ........................................................................................ 10 (9%)
Nac ydw.................................................................................... 107 (91%)

**19.5 Beth yw eich rhywedd?**

Gwryw ........................................................................ 118 (99%)
Benyw........................................................................ 0 (0%)
Anneuaidd ........................................................................ 1 (1%)
Arall ........................................................................ 0 (0%)

**19.6 Sut byddech chi'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol?**

Heterorywiol/Strêt........................................................ 113 (97%)
Hoyw/lesbiaidd/heterorywiol ........................................ 0 (0%)
Deurywiol........................................................................ 3 (3%)
Arall ........................................................................ 1 (1%)

**19.7 Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson trawsryweddol neu drawsrywiol?**

Ydw ........................................................................ 3 (3%)
Nac ydw........................................................................ 113 (97%)

## Cwestiynau olaf am y carchar hwn

**20.1 Ydych chi'n gallu byw bywyd iach yma (mewn perthynas â'ch lles corfforol, meddyliol, emosiynol a chymdeithasol)?**

Drwy'r amser ........................................................................ 18 (15%)
Y rhan fwyaf o'r amser................................................ 39 (33%)
Weithiau ........................................................................ 37 (32%)
Byth ........................................................................ 23 (20%)

**20.2 Ydych chi'n meddwl bod eich profiadau yn y carchar hwn wedi eich gwneud chi'n fwy neu'n llai tebygol o droseddu yn y dyfodol?**

Yn fwy tebygol o droseddu ........................................................ 9 (8%)
Llai tebygol o droseddu ........................................................ 70 (60%)
Heb wneud dim gwahaniaeth ........................................ 38 (32%)